

Trwyddedu Caffis ar y Stryd

Gall defnyddio byrddau a chadeiriau y tu allan i gaffis, tafarndai a bwytai yng nghanol y ddinas ddenu bywyd a bywiogrwydd i strydoedd y ddinas. Dylent gyfoethogi'r profiad i gerddwyr, gan gyflwyno delwedd agored a chroesawgar a bod yn hygyrch o'r llwybr cyhoeddus.



Er mwyn sicrhau nad ydynt yn achosi unrhyw broblemau i gerddwyr a/neu gerbydau gwasanaeth a brys, mae angen caniatâd y cyngor.

Mae hyn ar ffurf trwydded, a gall fod amodau'n berthnasol. Mae'r amod sy'n gofyn am gau'r ardal eistedd yn benodol o bwysig ar gyfer arwain pobl ddall neu bobl â golwg rhannol, ac mae hefyd yn helpu pobl hŷn a rhieni â phlant ifanc. Dylid dewis steil, trefn a lleoliad y dodrefn yn ôl maint a siâp y lle sydd ar gael er mwyn osgoi tentio cwsmeriaid i symud dodrefn y tu hwnt i ffiniau'r ardal drwyddedig.

Gwneud Cais am Ganiatâd

Caiff ceisiadau ar gyfer ardaloedd o'r priffordd a chanddynt lwybrau cerdded, neu ardaloedd i gerddwyr, eu pennu dan adrannau 15 (E) i (K) Deddf Priffyrdd 1980, a gallant gael eu rhoi am hyd at flwyddyn. Bydd angen cais ar wahân ar gyfer pob cyfnod arall sy'n dilyn hyn. Ymgynghorir ag adrannau a grwpiau â diddordeb eraill yn ystod y broses hon hefyd.


Mae'n rhaid i chi gael caniatâd gan y cyngor cyn rhoi unrhyw fyrddau neu gadeiriau ar y briffordd. Codir ffi o £34* fesul cadair ar gyfer pob trwydded. Mae'r ffi hon yn gywir ym mis Ebrill 2020 ond gall y ffi newid.

Caiff cyngor ynghylch cynnwys y daflen hon, prosesu ceisiadau a thrafod ag adrannau eraill ei gydlyn gan:


Briffyrdd a Chludiant
Cyngor Abertawe
Priffyrdd@abertawe.gov.uk
Ffôn: 01792 843330

Mae ffurflenni cais a/neu wybodaeth mewn fformat arall e.e. i bobl â nam ar y golwg hefyd ar gael ar gais.
Gofynion

Mae'n rhaid darparu palmant sydd o leiaf 1.8 metr o led a heb unrhyw rwystrau er mwyn i gerddwyr allu symud yn ddiogel ac yn gyfleus, gyda'r pellter hwn yn mesur o ymyl yr ardal drwyddedig i unrhyw adeilad neu ymyl palmant. Rhaid bod isafswm lled o 1.5 metr rhwng gwrthrychau, megis polion lampau neu folardiau. Mewn ardaloedd â llawer o gerddwyr, efallai y bydd angen lle ychwanegol ar y palmant



Bydd y llwybr heb ei rwystro mewn lleoliad sy'n gyfartal i naill ochr llinell ganol y droedffordd er mwyn sicrhau bod y lle sydd ar gael ar gyfer byrddau a chadeiriau'n cael ei rannu'n gyfartal rhwng eiddo ar bob ochr y stryd. Ar strydoedd i gerddwyr, efallai bydd defnydd yr ardal drwyddedig yn gyfyngedig i gyfnodau penodol er mwyn caniatáu mynediad i gerbydau gwasanaeth a cherbydau brys.




Trefn

Mae'n bwysig bod trefn y dodrefn yn cael ei hystyried yn ofalus fel nad yw llwybr cyffyrddol canol y ddinas yn cael ei gyfaddawdu gan unrhyw gynigion. Mae'r llwybr hwn yn cynnig llwybr drwy'r ddinas, heb unrhyw rwystrau, i bobl â nam ar y golwg.

Dylid cynnal llwybr clir sydd o leiaf 1.5 metr o led er mwyn caniatáu ar gyfer mynd i mewn i siopau a'u gadael, ac ni fydd lled yr ardal drwyddedig yn fwy na lled yr eiddo,

oni bai y rhoddwyd caniatâd ysgrifenedig gan berchnogion priodol yr eiddo cyfagos. Pe bai'r ardal eistedd gaeëdig ger y ffordd, byddai'n rhaid cynnal ffordd glir o 450mm rhwng y rhwystr a'r ffordd, a byddai angen cau'r ardal ar y 4 ochr. Byddai isafswm y lledau palmant, heb rwystrau, wedyn yn gymwys rhwng yr ardal drwyddedig a'r eiddo.


Efallai gellir caniatáu hysbysebu ar yr ardaloedd caeëdig, ond bydd unrhyw hysbysebu'n gyfyngedig i enw'r busnes yn unig. Ni ddylid eu defnyddio i hysbysebu gwasanaethau neu gynnyrch a werthir, a dylid darparu manylion gyda'r cais. Yn yr un modd, ni ddylid defnyddio'r enw neu'r logo ar eitemau o ddodrefn, ac eithrio o bosib y rheini a arddangosir ar barasolau.



Bydd angen caniatâd hysbysebu ar gyfer pob math o hysbyseb nad yw'n cael ei hysbysebu ar flaen y siop. Mae ffurflenni cais ar gael o Is-adran Cynllunio'r Adran Datblygu.

Ardal gaeëdig

Mae'n rhaid i'r holl weithgareddau sy'n berthnasol i'r eiddo trwyddedig gael eu rheoli o fewn y ffin gytunedig, gan gynnwys yr holl fyrddau, cadeiriau, parasolau, planwyr, rhwystrau etc. Dylid nodi'r ffiniau ag ardaloedd caeëdig sydd o fudd i gerddwyr sy'n mynd heibio a chwsmeriaid, wrth gynnal amgylchedd o safon uchel hefyd. Mae'r llun canlynol yn dangos enghreifftiau o'r ffyrdd gorau o gau ardaloedd eistedd, gan ddefnyddio planwyr, rhaffau a rheiliau tapio, etc.



Ym mhob achos dylai'r ardaloedd caeëdig hyn fod yn gludadwy. Dylent fod yn sefydlog ac yn gadarn, heb unrhyw ddarnau sy'n gwrthio allan, bod yn llyfn a chael rheilen dapio. Rhaid ystyried diogelwch a chysur y cyhoedd. Dylid bod yn ofalus iawn gydag unrhyw ymylon miniog, colynnau neu rannau eraill sy'n symud er mwyn sicrhau nad ydynt yn peri perygl posib i'w defnyddwyr.

Uchder: *Dylai'r ardal gaeëdig fod yn 1.0 metr o uchder, yn amodol ar gytuno ar fanylion penodol.*

Lliw: *Mae'n rhaid i'r lliw a ddefnyddir i ddangos y ffin fod yn lliw a thôn gwahanol i'w gefndir a'r byrddau a'r cadeiriau a ddefnyddir.*

Bwrdd tapio: *Mae'n rhaid cynnwys bwrdd tapio a rheilen sefydledig ar yr ochrau cyfeiriol - dylai fod y bwrdd tapio'n 150mm o ddyfnder ac mor agos i'r ddaear â phosib. Mae rheilen â rhaff yn dderbyniol ar hyd yr ochr hydredol e.e. yn gyfochrog â'r palmant. Dylid gosod y bwrdd tapio yn gadarn rhwng y pyst sy'n sefyll yn unionsyth - byddant yn gweithredu fel arweiniad ar hyd ymyl yr ardal gaeëdig.*

Planwyr: *Caiff y defnydd o blanwyr ei ystyried ar sail unigol i sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf uchod.*

Biniau Sbwriel: *Rhaid darparu'r rhain ar gyfer pob ardal gaeëdig.*

Steil y Dodrefn: *Dylai dodrefn awyr agored gyfrannu at amgylchedd y stryd mewn modd cadarnhaol. Anogir steil o ddodrefn sy'n ymarferol ac yn gain, ac sy'n integreiddio'n dda â gwedd y ddinas o'u cwmpas. Dylid cynnwys manylion y dodrefn arfaethedig gyda cheisiadau. Byddai'n werth gwneud hyn cyn ei osod. Efallai y rhoddir ystyriaeth i ddodrefn creadigol ac unigol sydd wedi'u dylunio'n dda hefyd.*

Dylai'r dodrefn fod yn gryf, yn wydn, yn ddwrglos ac yn gallu gwrthsefyll tywydd. Dylai'r dodrefn fod wedi'u dylunio at ddefnydd masnachol awyr agored, i sicrhau nad oes modd eu chwythu neu eu taflu. Ni ddylai'r dyluniad gynnwys rhannau sy'n debygol o achosi niwed i'r palmant.

Gellir cael byrddau, cadeiriau ac ymbarelau sydd wedi'u gorchuddio â phowdr, eu brwsio â dur gwrthstaen, sy'n rhai pren naturiol neu wedi'u paentio, neu'n gynfas. Dylid osgoi gwyn oherwydd ei ddirywiad cyflym yn yr amgylchedd trefol.

Dylai fod gan unrhyw ymbarelau fecanweithiau sy'n sicrhau eu bod yn gallu gwrthsefyll gwynt ar bob adeg, a dylid eu symud neu eu cau mewn amodau gwyntog iawn. Dylai wyneb isaf yr ymbarél fod o leiaf 2fetr uwchben lefel y ddaear.